OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif (Cy. )

# AER GLÂN, CYMRU

## Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) (Diwygio) 2019

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/50 (Cy. 15)) ("Rheoliadau 2019").

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro gwall teipograffyddol yn nhestun Cymraeg Rheoliadau 2019.

Mae Rheoliadau 2019 yn pennu pob tanwydd sydd wedi ei awdurdodi ar hyn o bryd i'w ddefnyddio mewn ardaloedd rheoli mwg yng Nghymru at ddibenion adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993 (p. 11).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif (Cy. )

# AER GLÂN, CYMRU

## Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) (Diwygio) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Mai 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *14 Mai 2019* |
| *Yn dod i rym* | *5 Mehefin 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir gan adran 20(6) o Ddeddf Aer Glân 1993(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) (Diwygio) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 5 Mehefin 2019 .

**Diwygio Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2019**

**2.** Yn nhestun Cymraeg Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2019(**2**), yn yr Atodlen, ym mharagraff 71(c), yn lle "150" rhodder "130".

(**1**) 1993 p. 11. Trosglwyddwyd swyddogaeth berthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oedd yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Mae'r swyddogaeth honno'n arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) O.S. 2019/50 (Cy. 15).

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
9 Mai 2019